# Paratoi a chynnal tir pori ar gyfer ceffylau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi a chynnal tir pori ar gyfer ceffylau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ansawdd, maint ac addasrwydd tir pori. Mae hefyd yn cynnwys adnabod a rheoli presenoldeb chwyn a phlanhigion gwenwynig, adnabod a dileu peryglon, sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr addas a gwirio ffiniau.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. asesu bod maint ac ansawdd tir pori yn briodol ar gyfer ceffylau sy'n pori
3. paratoi a chynnal tir pori trwy adnabod a rheoli presenoldeb chwyn a phlanhigion gwenwynig
4. adnabod presenoldeb unrhyw beryglon a chymryd y camau priodol
5. asesu diogelwch a diogeledd ffiniau ar gyfer tir pori
6. paratoi a chynnal ffiniau ar gyfer tir pori
7. paratoi a chynnal cyflenwad digonol o ddŵr heb ei halogi
8. cofnodi cyflwr y tir pori
9. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i wella ansawdd tir pori gwael ar gyfer ceffylau
3. sut i gynnal ansawdd tir pori da ar gyfer ceffylau
4. sut i adnabod a rheoli presenoldeb chwyn a phlanhigion gwenwynig
5. sut i leihau plâu parasitig ar dir pori ar gyfer ceffylau
6. y mathau gwahanol o ffiniau, eu haddasrwydd a'u defnydd
7. sut gellir darparu lloches a'i gynnal ar gyfer ceffylau
8. pwysigrwydd cyflenwad dwr mewn lleoliad addas
9. sut i reoli'r cyflenwad dwr trwy gydol y flwyddyn
10. pwysigrwydd cynnal diogelwch ardaloedd pori
11. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol.

## Geirfa

Ffiniau:

- gatiau
- muriau
- ffensys
- ffosydd
- gwrychoedd

LANEq313

Paratoi a chynnal tir pori ar gyfer ceffylau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq313 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; tir pori; pori |